Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
32/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
30/03/2023

# Rheolau Tarddiad: Ymchwil Archwiliadol gyda Busnesau

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-720-9

Teitl: Rheolau Tarddiad: ymchwil archwiliadol â busnesau

Awdur: IFF Research

| |
|---|
| Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/rheolau-tarddiad-ymchwil-archwiliadol-busnesau |

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Enw: Tîm Dadansoddi Masnach
Is-adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: Ysdadegau.masnach@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Geirfa ..... 2
1. Cyflwyniad ..... 5
2. Methodoleg ..... 10
3. Canfyddiadau ..... 15
4. Casgliadau ..... 24
Atodiad A – Sgriniwr Rheolau Tarddiad ..... 27
Atodiad B – Canllawiau Pwnc Rheolau Tarddiad – Busnesau ..... 31
Atodiad C – Canllawiau Pwnc Rheolau Tarddiad – Corff Masnach ..... 36

**Geirfa**

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffinad** |
|---|---|
| Rheolau Tarddiad (RhT) | Y meini prawf sydd eu hangen i bennu ffynhonnell genedlaethol cynnyrch. Mae eu pwysigrwydd yn deillio o'r ffaith bod tollau a chyfyngiadau mewn sawl achos yn dibynnu ar ffynhonnell y mewnforion. |
| Cyfnod gras (a elwir weithiau yn rheolaethau tollau gohiriedig) | Rhoddwyd cyfnod 'gras' o flwyddyn i allforwyr rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021, lle roedd ganddynt hyd at 175 diwrnod i gwblhau a chyflwyno datganiadau tollau llawn, gan gynnwys datganiadau ynghylch RhT wrth fasnachu â'r UE. O 1 Ionawr 2022, bu angen datganiadau tollau, gan gynnwys datganiad RhT, ar adeg allforio |
| RhT Ffafraethol | Rheolau a ddefnyddir i benderfynu a yw nwyddau'n gymwys fel rhai sy'n tarddu o wlad, at ddibenion cael triniaeth arbennig ar gyfer masnach (megis tollau llai neu dollau sero) rhwng gwledydd sy'n rhan o gytundeb rhyngwladol (fel Cytundeb Masnach Rydd (FTA)). |
| RhT nad yw'n ffafraethol | Rheolau a ddefnyddir i bennu gwlad tarddiad nwyddau wrth fasnachu o dan dollau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a thriniaeth gwledydd a ffefrir fwyaf (MFN). Fe'u defnyddir hefyd wrth weithredu mesurau masnach megis tollau gwrth-ddympio (ADD) a tholldaliadau gwrthbwysol (CVDs), embargoau masnach a chwotâu tariff, yn ogystal â'u defnyddio ar gyfer ystadegau masnach, tendrau cyhoeddus a nodau tarddiad. |
| Gwlad a ffefrir fwyaf (MFN) | Mae'r cymal MFN yn ymrwymiad polisi masnach anwahaniaethol i driniaeth gyfartal gyffredinol mewn masnach ryngwladol (h.y. rhaid rhoi unrhyw fraint neu gonsesiwn a roddir i un wlad i bawb). Mae rhai eithriadau, er enghraifft, gellir cytuno ar delerau |

| | |
|---|---|
| | masnachu gwell rhwng gwledydd trwy FTAs ac undebau tollau. |
| Tolldal gwrth-ddympio (ADD) | Tolldal a osodir ar fewnforion i ddarparu amddiffyniad i ddiwydiannau domestig rhag cystadleuaeth annheg a grëir gan fewnforion sydd wedi'u prisio'n sylweddol is na gwerth marchnad teg nwyddau tebyg yn y farchnad ddomestig. |
| Tolldal gwrthbwysol (CVDs) | Tolldal a osodir ar nwyddau a fewnforir i wrthbwyso cymorthdaliadau a roddir i gynhyrchwyr y nwyddau hyn yn y wlad wreiddiol neu'r wlad sy'n allforio. Mae CVDs i fod i lefelu'r maes chwarae rhwng cynhyrchwyr cynnyrch domestig a chynhyrchwyr tramor yr un cynnyrch sy'n gallu fforddio ei werthu am bris is oherwydd y cymhorthdal a gânt gan eu llywodraeth. At ddibenion tollau, caiff ei drin yn yr un modd ag ADD. |
| Tystysgrifau tarddiad | Dogfennau sy'n ardystio bod nwyddau mewn llwyth allforio penodol yn cael eu caffael, eu cynhyrchu, eu gweithgynhyrchu neu eu prosesu'n gyfan gwbl mewn gwlad benodol. |
| Croniad | System sy'n caniatáu i nwyddau a gafwyd neu a brosesir mewn un parti i gytundeb gael eu hystyried fel nwyddau sy'n tarddu o barti arall. Mae tri phrif fath:<br>a) Croniad dwyochrog: Darpariaeth o dan gytundeb rhwng dwy wlad/endid sy'n caniatáu i bob aelod o'r cytundeb ddefnyddio cynhyrchion sy'n tarddu o'r llall heb i'r nwydd terfynol golli ei statws gwreiddiol.<br>b) Croniad lletraws: Darpariaeth o dan gytundebau rhwng mwy na dwy wlad sy'n caniatáu i aelodau ddefnyddio cynhyrchion sy'n tarddu o'r llall heb i'r nwydd terfynol golli ei statws gwreiddiol. |

| | |
|---|---|
| | c) Croniad llawn: Darpariaeth sy'n caniatáu defnyddio cynhyrchion nad ydynt yn tarddu cyn belled â'u bod yn cael eu prosesu o fewn tiriogaeth cytundeb. |
| Codau nwyddau | Dilyniant o rifau sy'n cynnwys chwe, wyth neu ddeg digid a ddefnyddir i ddisgrifio cynnyrch. Mae'r cod nwyddau yn pennu: y tolldaliadau a thaliadau eraill a godir ar y nwyddau; y triniaethau ffafraethol (e.e. RhT) a allai fod yn berthnasol i'w mewnforio a ddefnyddir i sicrhau bod gan nwyddau'r dosbarthiad tariff cywir. Os defnyddir y cod anghywir ar gyfer cynhyrchion mewn datganiadau tollau, mae busnesau mewn perygl o dalu'r tariff anghywir. Yna gall nwyddau gael eu hatafaelu neu eu hoedi gan y tollau neu gellid codi taliadau ychwanegol |
| Asiant tollau | Swyddog gorfodi'r gyfraith sy'n gweithio ar ran y llywodraeth i gynnal archwiliadau ar nwyddau a phobl sy'n symud i mewn ac allan o wlad |
| Cludwr neu Frocer Tollau | Cwmni sy'n helpu masnachwyr i gynhyrchu eu holl waith papur tollau, rhagdalu tollau mewnforio a threthi, ac arbed ar gludwyr sy'n cludo pecynnau o'r tolldy i'r cwsmer |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mawrth 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru IFF Research i gynnal prosiect ymchwil archwiliadol ar raddfa fach i ddeall yn well ymwybyddiaeth busnesau Cymru o RhT ac unrhyw brofiadau o'i ddefnyddio. Yn benodol, yng nghyd-destun Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yr UE-DU (TCA)[1] pan ddaw'n fater o allforio i'r UE. Mae'r adran hon yn nodi'r cyd-destun ar gyfer y gwaith hwn, ac yna nodau ac amcanion penodol yr astudiaeth a strwythur yr adroddiad.

### Cyd-destun

1.2 Mae'r TCA, a drafodwyd yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, yn golygu bod set newydd o reolau tarddiad (RhT) bellach yn berthnasol i fasnach rhwng y DU a'r UE. Llofnodwyd y TCA ym mis Rhagfyr 2020 a daeth i rym ar yr un pryd ag y gadawodd y DU yn ffurfiol Undeb Tollau a Marchnad Sengl yr UE. Cyn hyn, roedd RhT yn ddiangen rhwng y DU a'r UE.

1.3 Mae'r TCA yn nodi partneriaeth economaidd a chymdeithasol newydd rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys Cytundeb Masnach Rydd (FTA). Mae'r FTA yn nodi trefniadau ffafraethol mewn meysydd fel masnach mewn nwyddau a gwasanaethau. Mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer tariffau sero a chwotâu sero ar bob cynnyrch sy'n cydymffurfio â'r RhT priodol. Nid oes rhaid i fusnesau hawlio triniaeth ffafraethol ar fewnforion neu allforion, ond yn yr achosion hyn, mae cynhyrchion yn ddarostyngedig i dariffau heb fod yn ffafraethol Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a gwledydd a ffefrir fwyaf (MFN) y parti sy'n mewnforio.

1.4 Wedi'i drafod fel rhan o'r TCA, roedd hawddfraint RhT o flwyddyn, neu gyfnod gras, i allforwyr y DU rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021, ar ardystio tarddiad cydrannau a oedd yn rhan o'u nwyddau gweithgynhyrchu[2]. Cynlluniwyd hwn i roi

[1] Y Comisiwn Ewropeaidd: Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yr UE-DU [cyrchwyd 27ain Chwefror 2023]

[2] Ar gyfer nwyddau a fewnforiwyd o'r UE i Brydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021, roedd gan fasnachwyr ym Mhrydain Fawr hyd at 175 diwrnod i gyflwyno datganiad tollau llawn a thalu unrhyw dariffau angenrheidiol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys datgan unrhyw brawf o darddiad.

amser i fusnesau ddeall, addasu a gwneud y gwaith gweinyddol angenrheidiol yn ymwneud â RhT.

1.5 Mewn masnach, gellir deall tarddiad fel cenedligrwydd economaidd nwydd a RhT yw'r meini prawf sydd eu hangen i bennu ffynhonnell genedlaethol, neu darddiad, nwydd o dan FTA. Mae tolldaliadau a chyfyngiadau mewn sawl achos yn dibynnu ar darddiad mewnforion.[3] Er y gallai ymddangos yn gysyniad syml, nid yw'r man ble y tarddia cynnyrch bob amser yn glir ac mae cadwyni cyflenwi byd-eang yn gwneud RhT yn gymhleth. Er enghraifft, mae tarddiad cynnyrch a defnydd o RhT yn cael ei bennu gan ble cafodd ei weithgynhyrchu, ei brosesu, ei gyrchu neu ei becynnu.

1.6 Mae Tystysgrif Tarddiad yn ddogfen fasnach ryngwladol sy'n ardystio bod nwyddau mewn llwyth allforio penodol wedi cael eu caffael, eu cynhyrchu, eu gweithgynhyrchu neu eu prosesu'n gyfan gwbl mewn gwlad benodol. Mae pob Tystysgrif Tarddiad yn cael ei llywodraethu gan RhT ac yn aml gofynnir amdani ar gyfer clirio tollau, rheoli taliadau a chonsesiwn tariff mewnforio. Ar gyfer busnesau sydd â chadwyni cyflenwi byd-eang, mae’r rhai sy’n gwybod am eu cadwyni cyflenwi mewn gwell sefyllfa i gydymffurfio ag amodau FTA.

1.7 Mae trafodaethau RhT yn aml yn anodd ac, o ganlyniad, maent yn aml yn un o'r meysydd mwyaf cymhleth a'r rhai olaf i'w cytuno mewn FTAs. Gellir adeiladu hyblygrwydd i RhT trwy ganiatáu canran benodol o fewnbynnau i gynnyrch o wledydd nad ydynt yn rhan o FTA. Gall rhai marchnadoedd gyfyngu ar y defnydd o RhT hyblyg, tra gall eraill wneud y mwyaf o'r hyblygrwydd, yn dibynnu, yn rhannol, ar eu dibyniaeth ar ddeunyddiau crai a mewnbynnau byd-eang.

1.8 Golyga’r TCA y gall busnesau’r DU fasnachu â’r UE heb dalu tariffau, ond dim ond os yw eu cynnyrch yn bodloni’r RhT perthnasol. Er mwyn allforio heb dariff o dan y TCA ac elwa ar RhT ffafriol, rhaid i gynnyrch ddod yn gyfan gwbl o'r DU, neu mae'n rhaid bod lefel gymwys o brosesu yn y DU. Rhaid i fusnesau'r DU sicrhau bod eu nwyddau'n bodloni gofynion RhT a bod ganddynt y ddogfennaeth gywir. Pwrpas y rheolau yw sicrhau mai dim ond i nwyddau sy’n tarddu o’r DU neu’r UE y caiff tariffau gostyngol eu cymhwyso, ac nid i wledydd y tu allan i’r DU ac aelod-

[3] Gweler Sefydliad Masnach y Byd, Gwybodaeth Dechnegol am Reolau Tarddiad [cyrchwyd 27ain Chwefror 2023].

wladwriaethau’r UE. Roedd RhT yn ffocws allweddol i’r DU wrth drafod y TCA, er mwyn osgoi tarfu ar ddiwydiannau’r DU gyda chadwyni cyflenwi cymhleth (e.e., gweithgynhyrchu ceir, gyda’r UE y farchnad sengl fwyaf).[4]

1.9 Gall deall y trefniadau RhT newydd helpu busnesau’r DU i gynnal allforion rhyngwladol i’r UE y tu allan i farchnad sengl ac undeb tollau yr UE. Bydd RhT hefyd yn caniatáu i allforwyr newydd fanteisio ar ostyngiadau tariff a galluogi masnach ryngwladol fwy proffidiol (er y dylid nodi bod gan fusnesau’r DU dariffau neu RhT yn flaenorol wrth allforio i’r UE fel aelod-wladwriaeth yr UE)... Mae RhT yn caniatáu i nwyddau a chynhyrchion gael eu prisio'n gystadleuol oherwydd nad oes rhaid i'r busnes addasu pris eu cynhyrchion o ganlyniad i faich tariffau. Yn gyntaf fodd bynnag, mae angen i fusnesau’r DU ddeall sut mae RhT yn effeithio ar yr hyn y maent yn ei werthu, neu yr hoffent ei werthu, yn yr UE.

1.10 Gall nwyddau o’r DU nad ydynt yn bodloni’r RhT ddal i gael eu masnachu yn yr UE, ond ni allant elwa ar brisiau gostyngol (sero) o dan y TCA. Mae’n bosibl felly y bydd rhaid i fusnesau dalu’r tariffau safonol y mae’r DU a’r UE yn eu cymhwyso i fewnforion.[5] I rai nwyddau, gall tariffau MFN fod yn isel neu'n sero (gan leihau'r angen am gydymffurfiaeth RhT), ond ar gyfer nwyddau eraill, gall tariffau fod yn llawer uwch.[6] Hefyd, gall Awdurdodau Tollau perthnasol osod cosbau am anghywirdeb neu fethiant i wneud datganiadau, hyd yn oed os nad oes toll yn daladwy.

1.11 I allforwyr y DU i’r UE a mewnforwyr yr UE o’r DU sy’n dymuno hawlio tariffau sero ar nwyddau, mae tri cham allweddol i asesu a dangos a yw nwyddau’n cydymffurfio â RhT:

1) dod o hyd i'r cod nwyddau cywir ar gyfer dosbarthu'r nwyddau;[7]

---

[4] McElhatton, N. (2021). One-year Rules of Origin easement for UK exporters under trade deal with EU: new government guidance. Institute of Export and International Trade [cyrchwyd 27ain Chwefror 2023].
[5] Ar gyfer allforion i'r UE, dyma fydd eu Tariff Allanol Cyffredin. Ar gyfer mewnforion i'r DU, yr un perthnasol yw Tariff Byd-eang y DU.
[6] Gweler Canllawiau Cyllid a Thollau EM ‘Introduction to rules of origin and claiming duties when trading between the UK and EU’ [cyrchwyd 27ain Chwefror 2023].
[7] Gweler Canllawiau Cyllid a Thollau EM ‘Finding commodity codes for imports into or exports out of the UK' [cyrchwyd 27ain Chwefror 2023].

2) deall a yw'r nwydd yn bodloni'r RhT perthnasol o'r TCA;[8]

3) deall sut i ddangos tarddiad i awdurdodau tollau a gwneud cais am dystysgrifau tarddiad.

1.12 Defnyddir datganiadau cyflenwyr i ddarparu tystiolaeth o statws gwreiddiol cynhyrchion. Gall busnesau ddefnyddio asiant allforio i'w helpu gyda RhT a sicrhau bod nwyddau'n clirio drwy'r tollau.

1.13 Yn flaenorol, comisiynodd Llywodraeth Cymru Dr Anna Jerzewska i gynnal ymchwil i ofynion RhT ar gyfer nwyddau diwydiannol allweddol Cymru[9] a sut y gellid mynd i'r afael ag unrhyw heriau sy'n ymwneud â RhT drwy bolisi masnach Cymru (Jerzewska 2021). Seiliwyd y canfyddiadau ar ddadansoddiad o ddata masnach i helpu i nodi diwydiannau allforio a marchnadoedd cyrchfan allweddol Cymru, adolygiad dogfennaeth o ddarpariaethau RhT (yn enwedig o FTAs diweddaraf y DU), a chyfweliadau ag allforwyr Cymreig o ddiwydiannau allforio allweddol a sefydliadau cyrff masnach. Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys lefelau isel o ymwybyddiaeth o faterion ffurfiol tollau a gofynion RhT ymhlith allforwyr Cymru, ac ansicrwydd ymhlith busnesau ynghylch a oeddent yn gymwys ar gyfer tarddiad/tariffau ffafraethol o dan y TCA. Canfuwyd bod y materion hyn yn effeithio’n anghymesur ar fentrau bach a chanolig (BBaCh) nad oedd efallai â’r arbenigedd neu’r adnoddau angenrheidiol ar gael i ddatod y gofynion RhT newydd (ibid, tt. 6-7).

1.14 Er mwyn i Lywodraeth Cymru ddeall yn well y problemau y gallai busnesau eu profi, megis, er enghraifft, RhT sy’n benodol i gynnyrch mewn rhai sectorau, argymhellodd Jerzewska ymchwil pellach gyda rhanddeiliaid allweddol i gael dealltwriaeth fanylach ac enghreifftiau o faterion yn ymwneud â RhT sy’n benodol i gynnyrch (ibid, t.12).[10]

[8] Gall busnesau ddefnyddio offeryn gwirio allforion CThEF i ddarganfod pa RhT sy'n berthnasol i'w hallforion [cyrchwyd 27ain Chwefror 2023].
[9] Jerzewska, A. (2021) Rheolau tarddiad: Masnach mewn nwyddau diwydiannol o Gymru [cyrchwyd 27ain Chwefror 2023]
[10] Llywodraeth Cymru, Rheolau tarddiad: Masnach mewn nwyddau diwydiannol o Gymru | GOV.CYMRU [cyrchwyd 27ain Chwefror 2023]

1.15 O'r busnesau a ymatebodd i arolwg Dirnadaeth ac Amodau Busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol [11] ym mis Ionawr 2023, defnyddiodd 19% o fusnesau Cymru RhT i gael tariffau is neu sero ar allforion i wledydd yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE (nid oedd 50% yn siŵr a oeddent wedi eu defnyddio). Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd y DU o 16% ac yn dangos cynnydd yn nifer y busnesau sy'n adrodd eu bod yn defnyddio RhT yng Nghymru ers mis Ebrill 2022 (14%). Mae canlyniadau Ionawr 2023 yn dangos bod bron i ddwy ran o dair o fusnesau wedi adrodd am gynnydd mewn gweinyddu o ganlyniad i ddefnyddio RhT i allforio i'r UE. Pan ofynnwyd i fusnesau nad oeddent yn defnyddio RhT ym mis Ionawr 2023 am eu rhesymau dros beidio â gwneud hynny, roedd llai na 3% yn teimlo bod costau gweinyddol yn drech na'r arbedion posibl, dywedodd llai na 3% fod diffyg dealltwriaeth, staffio neu arbenigedd yn ffactor ac nid oedd 15% o fusnesau yn defnyddio RhT oherwydd nad oedd eu hallforion yn bodloni'r gofynion.

**Nodau ac amcanion**

1.16 Comisiynwyd IFF Research i gynnal prosiect ymchwil archwiliadol ar raddfa fach i adeiladu ar y dadansoddiad a gynhaliwyd gan Dr Anna Jerzewska. Nod cyffredinol yr ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn oedd deall yn well ymwybyddiaeth busnesau Cymru o RhT, ac unrhyw brofiadau o'u defnyddio.

1.17 Trwy nifer fach (n: 7) o gyfweliadau lled-strwythuredig ansoddol, casglodd yr ymchwil hwn wybodaeth yn uniongyrchol gan fusnesau Cymreig (n:6) ac un corff masnach. Gan fod RhT bellach yn rhwystr di-dariff allweddol i fasnach rhwng y DU a'r UE i fusnesau Cymru, mae gwell dealltwriaeth o'r materion hefyd yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun trafodaethau masnach parhaus y DU. Bwriad yr ymchwil yw rhoi mewnwelediad i Lywodraeth Cymru i helpu i lywio camau gweithredu a chamau nesaf, gan gynnwys darparu cymorth priodol i fusnesau.

1.18 Yr amcanion ymchwil oedd archwilio gyda busnesau a sefydliadau cyrff masnach:

[11] Business Insights and Conditions Survey - Office for National Statistics [cyrchwyd 27ain Chwefror 2023]

- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o RhT yng nghyd-destun y newidiadau i drefniadau masnachu gyda'r UE
- profiadau o ddiwygiadau sydd eu hangen i addasu i'r newidiadau RhT
- unrhyw heriau a wynebir o dan drefniadau masnachu newydd yr UE
- unrhyw gymorth neu wybodaeth a geisir am RhT, ac unrhyw fylchau yn y cymorth sydd ar gael i fusnesau.

### Strwythur yr adroddiad

1.19 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro o dan yr adrannau a ganlyn.

- Mae **Adran Dau** yn crynhoi'r fethodoleg ymchwil. Mae'n egluro sut y cynhaliwyd yr ymchwil ac yn amlinellu ystyriaethau data allweddol i'w cadw mewn cof wrth ddehongli canfyddiadau.
- Mae **Adran Tri** yn cyflwyno canfyddiadau'r cyfweliadau â chynrychiolwyr cyrff busnes a masnach.
- Mae **Adran Pedwar** yn crynhoi casgliadau'r ymchwil.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r fethodoleg, gan gynnwys y strategaethau samplu a recriwtio, y dull casglu data a'r fframwaith dadansoddol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil. Mae hefyd yn amlinellu rhai ystyriaethau data allweddol a chyfyngiadau i'r ymchwil.

### Samplu a recriwtio

2.2 I ddechrau, roedd y strategaeth samplu ar gyfer recriwtio busnesau i gymryd rhan yn yr ymchwil yn seiliedig ar restr ailgysylltu blwyddyn 3 Arolwg Masnach Cymru[12] (AMC), rhestr o ymatebwyr a gytunodd i dderbyn ailgysylltiad at ddibenion ymchwil yn seiliedig ar ymatebion arolwg eu busnes.[13]

---

[12] Arolwg Masnach Cymru | GOV.CYMRU [cyrchwyd 27ain Chwefror 2023]
[13] Y cwestiynau ailgysylltu a ofynnwyd yn yr arolwg oedd “A fyddech yn fodlon i ymchwilwyr Cymru neu eu contractwyr penodedig gysylltu â chi os byddant yn gwneud rhywfaint o

2.3 Mae’r AMC yn arolwg ‘gwthio i’r we’[14] ystadegol a anfonwyd at 8,000 o fusnesau sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae’r arolwg, a gynhelir gan IFF Research ar ran Llywodraeth Cymru, yn casglu data sy’n canolbwyntio ar wella dealltwriaeth o symudiadau masnach i mewn ac allan o fusnesau yng Nghymru. Ei nod yw creu gwell dealltwriaeth o economi Cymru, gan gynnwys rhyng-gysylltiadau busnesau Cymru a busnesau mewn rhannau eraill o’r DU a thramor. Roedd gwaith maes ar gyfer blwyddyn 3 yr AMC yn rhedeg o 13 Medi 2021 i 17 Rhagfyr 2021, gan gasglu data 2020 gan ymatebwyr.

2.4 Roedd yr AMC blwyddyn 3 yn cynnwys cwestiwn ar RhT. Defnyddiwyd y cwestiwn hwn i nodi busnesau a allai fod o fewn cwmpas yr ymchwil. Cafodd y cwestiwn ei gyfeirio felly bod pob busnes a ymatebodd eu bod wedi allforio neu fewnforio nwyddau y tu allan i'r DU yn 2020 yn cael eu holi:[15]

> “Ydych chi'n defnyddio tariffau ffafriol a rheolau tarddiad ffafriol wrth allforio tu allan i'r DU?”

2.5 Mewn ymateb (n=306), dywedodd 33% eu bod yn “Amherthnasol (e.e. nid oes gan nwyddau fy musnes unrhyw dariffau, beth bynnag fo unrhyw gytundebau masnach)”, atebodd 29% “ddim yn gwybod” a 23% yn ateb “na”. O’r 15% a ymatebodd ‘ie’ i ddefnyddio tariffau ffafraethol a RhT ffafraethol wrth allforio y tu allan i’r DU, nodwyd 14 busnes a oedd hefyd wedi cydsynio i ailgysylltu at ddibenion ymchwil yn yr arolwg. I wirio eu haddasrwydd ar gyfer yr ymchwil, cysylltodd IFF â’r

---

ymchwil dilynol ar faterion cysylltiedig? [opsiynau ymateb: ydwyf, nac ydwyf]”; ac wrth y busnesau hynny a ymatebodd “ydwyf”, gofynnwyd “A all y dewis ar gyfer ailgysylltu at ddibenion ymchwil fod yn seiliedig ar eich ymatebion i'r arolwg? [dewisiadau ymateb: ie/na]”.


[14] Cynhelir yr AMC drwy ddefnyddio dull gwthio i'r we. I ddechrau, anfonir llythyr gwahoddiad post dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) i fusnesau a samplwyd yn eu hannog i fynd ar-lein a chwblhau'r arolwg.

[15] Y ddau gwestiwn y cyfeiriwyd cwestiwn RhT ohonynt oedd: 1), (gofynnwch i bawb sy'n nodi gwerth ar gyfer “NWYDDAU” yn 2020) “Ar gyfer Cyfanswm GWERTHU NWYDDAU o weithrediadau yng Nghymru, pa werth oedd i gwsmeriaid yn y lleoliadau canlynol? Os nad oes gennych union werthoedd, rhowch eich amcangyfrif gorau” [opsiynau ymateb: Cymru, Gweddill y DU (ac eithrio Cymru), yr UE, Gweddill y byd (ac eithrio'r UE a'r DU)); a 2), (os prynwyd nwyddau yn 2020) “Ar gyfer NWYDDAU A BRYNWYD (gan gynnwys MEWNFORION) gan eich gweithrediadau yng Nghymru, dewiswch o ba un o'r lleoliadau canlynol y daethant. [opsiynau ymateb: Cymru, Gweddill y DU (ac eithrio Cymru), yr UE, Gweddill y byd (ac eithrio'r UE a'r DU).

busnesau hyn dros y ffôn i'w gwahodd i gwblhau 'sgriniwr' recriwtio. Ceir copi o'r sgriniwr hwn yn yr atodiad (Atodiad A).

2.6 Cadarnhawyd bod pob un o'r 14 busnes a nodwyd drwy'r AMC o fewn cwmpas amcanion yr ymchwil yn ystod y broses sgrinio. O'r 14 busnes hyn, cytunodd 6 i gymryd rhan mewn cyfweliad galwad fideo gydag IFF Research. Ceir trosolwg o'r strategaeth samplu ar gyfer busnesau yn Ffigur 1.

**Ffigur 1: Trosolwg o strategaeth samplu RhT ar gyfer busnesau**




2.7 Er mwyn cael trosolwg ehangach o'r materion a'r profiadau sy'n ymwneud â RhT, nodwyd bod un cynrychiolydd o sefydliad corff masnach yn addas i gymryd rhan yn ystod ei gysylltiad ag astudiaeth ymchwil arall gan Lywodraeth Cymru.[16] Cytunodd yr unigolyn hwn i gymryd rhan mewn cyfweliad galwad fideo ar RhT.

2.8 Ar ôl i ganfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg ddatgelu sut mae rhai busnesau'n cyflogi asiantau allforio i reoli RhT, gwnaed ymdrechion i ehangu'r sampl a recriwtio unigolion yn y rôl hon i'r ymchwil. Nodwyd asiantau allforio trwy ymchwil desg. Fodd bynnag, nid oedd yr un ohonynt ar gael i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn o fewn yr amserlen a oedd ar gael.

2.9 I ddiolch i bob cyfwelai am eu hamser am gymryd rhan yn yr ymchwil, gwnaed cyfraniad o £50 yn enw eu busnes neu sefydliad i Apêl Ddyngarol Wcráin y Pwyllgor Argyfwng Trychineb, a weinyddir gan IFF ar ran Llywodraeth Cymru.

---

[16] Comisiynwyd IFF Research gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil gyda busnesau a sefydliadau cyrff masnach ar wasanaethau modd 5. Nod yr ymchwil hwn yw cael gwell dealltwriaeth o ymwybyddiaeth busnesau Cymreig o wasanaethau modd 5, a phrofiadau gyda nhw. Cyhoeddwyd yr [adroddiad terfynol] ar dudalennau gwe Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru [cyrchwyd 27ain Chwefror 2023].

**Gwaith maes**

2.10 Cwblhawyd cyfanswm o saith cyfweliad: chwech gyda busnesau ac un gyda sefydliad corff masnach. Yn fras, i roi cyd-destun wrth ddehongli canfyddiadau:

- roedd gan bob un o'r chwe busnes a gyfwelwyd weithrediadau yng Nghymru
- roedd rhai busnesau yn is-gwmnïau i gwmnïau rhyngwladol
- roedd busnesau'n gweithredu naill ai yn y sectorau electroneg, fferyllol neu biotechnoleg
- roedd busnesau naill ai’n ficro (3-9 o weithwyr), yn fach (10-49 o weithwyr), neu’n ganolig (50-249 o weithwyr) o ran maint (h.y., ni chynhwyswyd unrhyw fusnesau mawr (250+ o weithwyr) yn y sampl)
- roedd gan bob un o'r chwe busnes a gyfwelwyd o leiaf rywfaint o fasnach ryngwladol
- roedd pob un o'r busnesau a gyfwelwyd yn defnyddio deunyddiau wedi'u mewnforio
- roedd gan yr un corff masnach a gyfwelwyd aelodau a oedd i gyd wedi'u lleoli yng Nghymru ac o'r aelodau hyn, roedd eu gweithrediadau busnes naill ai'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru.

2.11 Cynigiwyd yr opsiwn i fusnesau gymryd rhan yn y broses sgrinio recriwtio a/neu’r cyfweliad yn Gymraeg, a gwahoddwyd cyfwelai’r corff masnach i gymryd rhan mewn cyfweliadau yn Gymraeg, ond ni ofynnodd yr un ohonynt am hyn.

2.12 Digwyddodd y gwaith maes rhwng 25 Mawrth a 22 Mehefin 2022. Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig trwy alwad fideo (Microsoft Teams). Cynhaliwyd cyfweliadau busnes gan ddefnyddio canllawiau pwnc a oedd yn para rhwng 22 a 37 munud. Defnyddiwyd fersiwn wedi'i theilwra ychydig i gyfweld y corff masnach. Yn yr achos hwn, newidiwyd iaith i lywio sgyrsiau o amgylch aelodau’r ymatebydd yn hytrach na’u sefydliad eu hunain. Parhaodd y cyfweliad hwn am 32 munud. Mae’r canllawiau dan sylw i’w gweld yn yr atodiad (Atodiadau B aC).

2.13 Cynlluniwyd y canllawiau pwnc, a ddatblygwyd gan IFF a LIC, i hwyluso cyfweliad lled-strwythuredig o amgylch y themâu allweddol i'w harchwilio, heb fod yn rhy

gyfyngol. Roedd natur archwiliadol yr ymchwil a’r lefelau gwahanol o lefelau ymwybyddiaeth a phrofiadau RhT y cyfranogwyr yn golygu ei bod yn bwysig cael yr hyblygrwydd hwn i ganiatáu i’r sgwrs gael ei theilwra o amgylch profiadau’r cyfweleion. Nod y canllawiau pwnc oedd casglu gwybodaeth am ddealltwriaeth ac effeithiau RhT, yn ogystal ag archwilio pam bod rhai bylchau mewn gwybodaeth gan gyfranogwyr a nododd nad oedd ganddynt brofiad uniongyrchol o ddefnyddio RhT.

2.14 Roedd y pynciau a drafodwyd yn y cyfweliad yn cynnwys:

- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o RhT
- profiad ac effaith y newidiadau RhT
- gwybodaeth a chefnogaeth ar gael am RhT.

**Ystyriaethau data**

2.15 Mae rhai ystyriaethau allweddol i’w cadw mewn cof wrth ddehongli canfyddiadau, gan gynnwys:

- **Ymchwil Archwiliadol**. Adeiladwyd amcanion yr ymchwil hwn i geisio mynd i’r afael â'r bylchau mewn gwybodaeth. O ganlyniad, rhagwelwyd heriau o ran recriwtio, lefelau ymwybyddiaeth o RhT gan fusnesau ac ymgysylltu â hwy. Nid oeddem yn sicr ar y cychwyn faint o fusnesau a fyddai’n gallu cyfrannu at yr ymchwil, yn enwedig pa mor fanwl y byddent yn gallu trafod RhT. Roedd hyn yn golygu bod y prosiect wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg ac yn ansoddol o'r cychwyn cyntaf. Yn wreiddiol, roedd i fod i ddod i ben ym mis Mehefin 2022, ond cafodd y prosiect ei ymestyn i ganiatáu ar gyfer gwaith maes pellach mewn ymgais i gynyddu recriwtio i'r ymchwil a rhoi hwb i'r set ddata.
- **Maint sampl bach.** Nid oedd yn bosibl dadansoddi fesul sector neu faint busnes ac nid oedd yn bosibl nodi graddau ac ystod lawn effeithiau RhT ar fusnesau sy'n gweithredu yng Nghymru. Oherwydd maint bach y sampl a natur ansoddol yr ymchwil, ni ellir cyffredinoli o'r canfyddiadau i boblogaeth ehangach busnesau Cymru.

- **Amserlen gyfyngedig ar gyfer ymchwil**. Nid oedd rhai busnesau a nodwyd fel rhai gweithredol o ran RhT, ynghyd ag asiantau allforio sy'n gyfrifol am reoli RhT, yn gallu cymryd rhan o fewn amserlen yr ymchwil.
- **Parodrwydd cyfyngedig i drafod manylion masnachol sensitif.** Roedd busnesau'n amharod i rannu gormod o fanylion oherwydd natur fasnachol sensitif y pynciau a drafodwyd.

## 3. Canfyddiadau

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r cyfweliadau. Rhoddir trosolwg o'r sampl o fusnesau a gymerodd ran yn yr ymchwil yn gyntaf, er mwyn helpu i roi'r canfyddiadau a gyflwynir yng ngweddill yr adran hon yn eu cyd-destun.

3.2 Fel y crybwyllwyd yn 2.2, lluniwyd y sampl o gwestiynau Arolwg Masnach Cymru blwyddyn 3 yn seiliedig ar ddau gwestiwn ynghylch Rheolau Tarddiad. Yna gofynnwyd y cwestiwn amlddewis canlynol i bawb a ymatebodd nad oeddent yn defnyddio rheolau a thariffau ffafraethol i werthu nwyddau dramor (n=69) [roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ymateb].

> "Pam nad ydych chi'n defnyddio tariffau ffafraethol a rheolau tarddiad ffafraethol wrth allforio y tu allan i'r DU?"[17]

3.3 Ymatebodd mwy na thraean (36%) eu bod yn "amherthnasol (e.e. nid oes gan nwyddau fy musnes unrhyw dariffau, beth bynnag am unrhyw gytundebau masnach)". Gan nodi rhai rhwystrau i RhT, nododd 16% nad oeddent "yn ddigon cyfarwydd / heb y wybodaeth angenrheidiol" a nododd 14% pellach nad oeddent yn "gwybod eu bod yn bodoli". Ymddengys nad oedd y prosesau sy'n gysylltiedig â RhT yn rhwystr i'r rhan fwyaf o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, gyda llai na 7% yn nodi bod tariffau a rheolau ffafraethol yn rhy anodd i'w defnyddio, bod prosesau'n rhy ddrud neu fod gormod o gwaith papur sy'n gysylltiedig â nhw. Ni chynhwyswyd y rhai nad oeddent yn defnyddio RhT yn y sampl ar gyfer yr ymchwil hwn. Gallai

[17] Sylfaen: Pob busnes na ddefnyddiodd dariffau a rheolau ffafraethol i werthu nwyddau y tu allan i'r DU yn 2020 (n=69). Ymatebodd 6% "Maent yn rhy anodd neu gymhleth i'w defnyddio", ymatebodd 6% "Mae prosesau ar gyfer darparu rheolau tarddiad ffafraethol yn rhy ddrud i fy musnes", ymatebodd 4% "Mae gormod o waith papur ychwanegol", nododd 19% ddewis arall ymateb agored ac ymatebodd 14% "ddim yn gwybod".

ymchwil yn y dyfodol ymgynghori â busnesau o'r fath i ymchwilio ymhellach i'r rhesymau a roddwyd dros beidio â defnyddio RhT.

**Trosolwg o fusnesau a gymerodd ran yn yr ymchwil**

3.4 Roedd y chwe busnes a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn fel a ganlyn.

- **Busnes 1:** Yn is-gwmni i gwmni sydd wedi’i leoli yn yr UE, mae’r busnes hwn yn gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion trydanol, gan allforio’n fyd-eang gyda throsiant o filiynau o bunnoedd. Mewnforiwyd deunyddiau o wlad yn yr UE a Tsieina. Roedd y busnes hwn yn defnyddio asiantau allforio a chludwyr, ond roedd gweithwyr yn monitro gwefannau penodol ac yn cynnal hyfforddiant staff rheolaidd i sicrhau bod gwybodaeth fewnol ar faterion allforio. O ganlyniad roedd ganddynt ymwybyddiaeth dda o RhT.
- **Busnes 2:** Roedd y busnes hwn yn dylunio ac yn gweithgynhyrchu nwyddau ar gyfer y sector biotechnoleg, gan allforio’n fyd-eang, gan gynnwys o fewn yr UE, a’i weithredu drwy rwydwaith o ddosbarthwyr. Yn gyffredinol, roedd gan y busnes hwn ymwybyddiaeth isel o RhT, gan ddibynnu yn lle hynny ar eu dosbarthwyr i reoli'r broses hon. Wrth fodloni gofynion RhT, nododd y busnes hwn o ble yr oeddent yn cael eu cydrannau a rhannwyd y wybodaeth hon gyda'u dosbarthwyr.
- **Busnes 3:** Roedd y busnes hwn yn cynhyrchu cynhyrchion tecstilau. Mewnforiwyd deunyddiau o Ewrop ac Asia a’r Môr Tawel, gyda chynhyrchion wedyn yn cael eu gwerthu'n ddomestig a'u hallforio i Ewrop. Roedd gan y busnes rywfaint o ymwybyddiaeth o RhT ond nid oedd wedi gwneud unrhyw newidiadau i'w brosesau mewnforio nac allforio, gan amsugno'r costau yn lle hynny.
- **Busnes 4:** Roedd y busnes hwn yn dylunio technoleg ar gyfer y sector biotechnoleg gyda throsiant o filiynau o bunnoedd. Roedd y rhan fwyaf o fasnach y busnes hwn trwy allforio. Roedd gan y busnes arweinydd Gadael yr UE, ac o ganlyniad, roedd ganddo wybodaeth fanwl am RhT.
- **Busnes 5:** Roedd y busnes hwn yn gweithgynhyrchu ac allforio nwyddau trydanol, gyda'r rhan fwyaf o ddeunyddiau gweithgynhyrchu'n cael eu mewnforio

o Asia a'r Môr Tawel. Nid oedd y newidiadau RhT a ddaeth yn sgil y DU yn gadael yr UE yn berthnasol i'w busnes. Roedd gan y busnes drosiant o filiynau o bunnoedd ac roedd yn allforio'n fyd-eang. Roedd gan y busnes ymwybyddiaeth uchel o RhT ac roedd yn cyflogi asiant allforio a oedd yn eu cynghori ar y maes hwn. Roedd yr holl fusnes yn cael ei gydgysylltu trwy system feddalwedd a oedd â swyddogaeth yn dangos cymhwysedd tolldaliadau.

- **Busnes 6:** Yn gwmni canolig ei faint (50-249 o weithwyr) yn y sector gweithgynhyrchu, roedd y busnes hwn yn mewnforio'n bennaf o wlad yn rhanbarth Asia a'r Môr Tawel, lle roedd ganddynt is-gwmni a oedd yn eu perchnogaeth lwyr, o ble'r oeddent yn cael y rhan fwyaf o ddeunyddiau. Hefyd roedd y busnes yn cael gafael ar symiau bach o ddeunyddiau o'r DU a'r UE, gyda'i holl weithgynhyrchu yn y DU. Cludwyd nwyddau ledled y DU, yr UE ac yn fyd-eang, a'r UE oedd y farchnad fwyaf. Prin oedd ymwybyddiaeth yr ymatebydd o RhT.
- **Corff Masnach:** sefydliad aelodaeth a arweinir gan ddiwydiant ac a gefnogir gan ei aelodau, Diwydiant Cymru a Llywodraeth Cymru. Roedd gan yr aelodau weithrediadau gweithgynhyrchu wedi'u lleoli yng Nghymru.

3.5 Mae gweddill yr adran yn amlinellu canfyddiadau'r prif themâu a archwiliwyd yn y cyfweliadau, sef:

- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau o RhT yng nghyd-destun y newidiadau i drefniadau masnachu gyda'r UE
- profiadau busnesau yn addasu i'r newidiadau RhT
- unrhyw gefnogaeth neu wybodaeth a geisiwyd gan gyfweleion ar RhT, ac unrhyw fylchau yn y gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau.

**Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o RhT**

3.6 Nod cyffredinol yr ymchwil hwn oedd cael dealltwriaeth o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau o RhT. Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd beth oedd RhT yn eu barn nhw. Roedd y ddealltwriaeth gyffredinol o beth oedd RhT ymhlith y busnesau a gyfwelwyd yn dda, ond roedd gwybodaeth fanwl am RhT yn llai cyffredin.

3.7 Roedd gan y busnesau canolig eu maint a gyfwelwyd beth ymwybyddiaeth o RhT, er nad oedd ganddynt ddealltwriaeth o'r manylion. Dywedodd dau fusnes canolig

neu is-gwmni i fusnesau mwy a gyfwelwyd eu bod yn monitro'r holl bolisïau a allai effeithio arnynt yn rheolaidd, tra bod y busnesau llai yn y sampl yn defnyddio asiantau allforio i gyflawni'r rôl fonitro hon ar eu rhan. Canfuwyd bod y busnesau llai yn y sampl yn dibynnu'n llwyr ar asiantau allforio ac yn ymddiried y byddent yn ymdrin â holl oblygiadau polisi a rheoleiddio i'w busnes.[18]

*Ffynhonnell gwybodaeth*

3.8 Adroddodd dau fusnes fod eu hymwybyddiaeth o RhT yn deillio o ymchwil unigol, a oedd yn cynnwys ymchwil desg (gwefannau'r llywodraeth yn bennaf a rhai adroddiadau academaidd cyhoeddedig), ynghyd â thrafodaethau mwy anffurfiol gyda chymheiriaid. I'r cyfweleion hyn, roedd eu harferion ymchwil yn cael eu hysgogi gan ddiddordeb personol mewn datblygiadau polisi masnach, y capasiti i gymryd rhan mewn ymchwil polisi ac ymgysylltu, neu roeddent yn is-gwmni i fusnes mwy y gallent rannu'r capasiti hwn â nhw. Er enghraifft, roedd arweinydd Gadael yr UE o fewn un o'r busnesau hyn, a oedd yn gweithio ym maes nwyddau trydanol, wedi bod yn paratoi i adael yr UE ers tua dwy flynedd. Dywedodd y ddau fusnes canolig, neu is-gwmnïau busnesau mwy, eu bod yn monitro'r holl bolisïau a allai effeithio arnynt yn rheolaidd, gan gynnwys RhT.

> "Mae'n rhywbeth sy'n cael ei wneud bob dydd [monitro datblygiadau mewn treth mewnforio/allforio] – rydym yn monitro gwefannau penodol ac yn cynnal hyfforddiant staff rheolaidd" Cwmni technoleg

3.9 Dywedodd y busnesau llai yn y sampl nad oedd ganddynt yr adnoddau ar gyfer ymchwil unigol. Pan holwyd ymhellach am hyn yn y cyfweliad, dywedodd dau o'r busnesau llai hyn eu bod yn dibynnu ar asiantau allforio i helpu gydag unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleiddio neu bolisi RhT. Gan eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt amser i ymchwilio i fanylion unrhyw faterion RhT, roeddent yn hytrach yn ymddiried yng nghyngor asiantau allforio a gyflogwyd. Roeddent yn gwybod bod RhT yn dibynnu ar gyfrifiad yn seiliedig ar werth y cydrannau a brynwyd yn erbyn gwerth y cynnyrch a werthwyd. Gallai hyn fod yn unol â chyfrifiadau pris cyn-waith

[18] Gofynnwyd i'r ymatebwyr "A allech chi roi trosolwg i mi o'r hyn rydych chi'n ei ddeall yw Rheolau Tarddiad?" ac "I ba raddau y byddech yn ystyried bod eich busnes yn gyfarwydd â Rheolau Tarddiad?"

(EXW[19]) a ddefnyddir fel un rhan o'r fformiwla i gyfrifo canran y cynnwys gwreiddiol. Fodd bynnag, teimlai'r cyfweleion fod y manylion cyfrifo yn gymhleth. Roedd eu hymwybyddiaeth o RhT yn deillio o anghenion y dosbarthwr. Darparai'r ddau fusnes hyn y gwaith papur yr oedd y dosbarthwr eisiau, a gobeithio fod hyn yn ddigon i gwrdd ag unrhyw ofynion RhT.

> "Rydym yn cyflogi ymgynghorydd ar dollau [asiant allforio] sy'n rhoi cyngor ar y pethau hyn. Maen nhw'n gwneud yr holl ddatganiadau i ni" Gwneuthurwr nwyddau trydanol

*Ymwybyddiaeth o gyfnod hawddfraint RhT*

3.10 Roedd ymwybyddiaeth gymysg ymhlith cyfweleion o gyfnod hawddfraint RhT (cyfnod gras yr UE y cytunwyd arno yn y TCA). Er enghraifft, nid oedd un o'r busnesau llai yn y sampl, a oedd yn cynhyrchu nwyddau trydanol, yn ymwybodol o gyfnod yr hawddfraint.

3.11 Nid oedd busnes canolig ei faint a gyfwelwyd, a oedd wedi disgrifio ymwybyddiaeth o RhT yn gynharach yn eu cyfweliad, wedi clywed am unrhyw newidiadau, gan awgrymu bwlch yn eu gwybodaeth. Pan roddwyd esboniad o'r hawddfraint (h.y., roedd ganddynt gyfnod gohirio o 175 diwrnod, bron i chwe mis, i wneud datganiad mewnforio cywir a thalu unrhyw doll perthnasol bryd hynny), dywedodd y busnes ei fod wedi prosesu'r holl waith papur o fewn 4 diwrnod ac nad oedd erioed wedi bod angen mwy o amser i gwblhau eu ffurflenni tollau. Pan ofynnwyd iddynt beth oedd wedi newid ers Ionawr 2021 o ran taliadau RhT posibl, dywedasant nad oedd dim wedi newid, gan awgrymu eu bod yn ymwybodol o RhT ond mai cyfyngedig oedd eu gwybodaeth am sut maent yn gweithredu.

3.12 Roedd un busnes canolig ei faint a oedd wedi treulio amser yn ymchwilio i RhT ac a ddangosodd ymwybyddiaeth a gwybodaeth dda yn y cyfweliad yn meddwl bod ymwybyddiaeth ymhlith busnesau eraill yn eithaf isel. Roedd eu barn yn seiliedig ar

[19] (i) pris y cynnyrch a dalwyd neu sy'n daladwy i'r cynhyrchydd sy'n gwneud y gwaith neu'r prosesu olaf, ar yr amod bod y pris yn cynnwys gwerth yr holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd a'r holl gostau eraill a dynnwyd wrth gynhyrchu'r cynnyrch, llai unrhyw drethi mewnol sy'n cael eu had-dalu, neu y gellir eu had-dalu, pan fydd y cynnyrch a gafwyd yn cael ei allforio; neu (ii) os nad oes unrhyw bris wedi'i dalu neu'n daladwy neu os nad yw'r pris gwirioneddol a dalwyd yn adlewyrchu holl gostau cynhyrchu'r cynnyrch a gafwyd mewn gwirionedd wrth ei gynhyrchu, gwerth yr holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd, a'r cyfan o gostau eraill a gafwyd wrth gynhyrchu'r cynnyrch gan y Parti sy'n allforio

ryngweithio anecdotaidd â busnesau eraill. Yn yr un modd, ac unwaith eto yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd, teimlai'r corff masnach a gyfwelwyd fod busnesau mwy yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o gyfnod hawddfraint RhT oherwydd bod ganddynt y capasiti i fod â rolau penodol i fonitro datblygiadau, megis, er enghraifft, ymadael â'r UE a datblygiadau cysylltiedig â FTA a CThEF.

*Ardystiad*

3.13 Ar y cyfan, roedd dealltwriaeth dda o ardystiad RhT. Roedd pob busnes a gyfwelwyd yn ymwybodol o'r gofyniad tystysgrifau tarddiad, angen profi tarddiad nwyddau, ac roedd ganddynt brofiad o ddefnyddio'r tystysgrifau hyn. Fodd bynnag, nid oedd yr un ohonynt yn ymwybodol o gosbau CThEF am ddiffyg cydymffurfio ac anghywirdebau. Gallai cosbau a orfodir gan CThEF gynnwys archwiliadau tollau a gynhelir ar safle busnes; cais am daliad o unrhyw doll heb ei dalu a TAW ar fewnforion (yn mynd yn ôl dair blynedd); rhoi cosbau ariannol am beidio â chydymffurfio (hyd yn oed pan nad oes tolldaliadau yn ddyledus); a gostyngiad yn sgôr cydymffurfio'r busnes yn fwy cyffredinol ar draws trethi.

3.14 Nid oedd y cyfweleion busnes yn disgwyl i'w diffyg gwybodaeth am gosbau fod yn broblem oherwydd na fyddai partneriaid neu fasnachwyr yn gwneud busnes heb dystysgrif.

*Codau nwyddau*

3.15 Roedd dealltwriaeth o godau nwyddau yn dda, ac ni nododd busnesau unrhyw anawsterau nac ansicrwydd wrth gael eu harchwilio. Adroddodd un busnes sut y canfuwyd bod dehongli codau yn oddrychol, a allai arwain at unigolion yn pennu codau gwahanol i gyfeirio at yr un peth.

> “Rydym yn gweld y gall gwahanol bobl feddwl am godau gwahanol ar gyfer yr un cynnyrch” Gwneuthurwr nwyddau trydanol

Fodd bynnag, teimlent mai problem fechan iawn fyddai hon.

3.16 Roedd gan fusnes arall rôl benodol i fonitro'r codau a chael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau. Yn y cyfamser dim ond dau god a ddefnyddiodd un busnes felly adroddwyd eu bod wedi canfod y rhain yn hawdd i'w rheoli.

*Trefniadau cronni*

3.17 Yn y cyfweliad, gofynnwyd i fusnesau am eu dealltwriaeth o gytundebau cronni. Mae trefniadau cronni yn system sy'n caniatáu i gynhyrchion sy'n tarddu o un parti gael eu trin fel pe baent yn tarddu o un arall wrth benderfynu a yw nwyddau'n bodloni rheol sy'n benodol i'r cynnyrch (disgrifir y tri math o drefniadau cronni yn yr Eirfa). Yn debyg i ymwybyddiaeth o RhT yn gyffredinol, roedd dealltwriaeth gyffredinol dda o beth oedd trefniadau cronni ymhlith y busnesau a gyfwelwyd, ond roedd dealltwriaeth fanwl o’r trefniadau hyn yn llai cyffredin.

3.18 Roedd rhaniad cyfartal rhwng y busnesau hynny a oedd yn ymwybodol o drefniadau cronni a'r rhai nad oeddent yn ymwybodol ohonynt. O fewn y sampl fach, roedd y busnesau mwyaf yn dangos mwy o ymwybyddiaeth o'r trefniadau hyn na'r busnesau llai. Roedd un o'r busnesau mwy yn gallu rhoi disgrifiad cryno tra bod y llall yn gwybod yr enw, ond yn gofyn am ddiffiniad i'w hatgoffa. Nid oedd y rhai a oedd yn ymwybodol yn meddwl bod cytundebau cronni yn berthnasol iddynt ac felly nid oeddent wedi treulio amser yn cael gwybodaeth fanylach.

3.19 Roedd un busnes llai a oedd yn defnyddio asiant allforio wedi cael gwybod nad oedd trefniadau cronni yn berthnasol iddo ac felly ychydig o sylw a roddwyd iddynt.

*Rheolau penodol i gynnyrch*

3.20 Ni nododd unrhyw fusnes eu bod yn defnyddio rheolau oedd yn benodol i gynnyrch. Dywedodd busnes llai y gallai asiant fod yn defnyddio rheolau penodol i gynnyrch ar eu rhan ond nid oeddent yn siŵr o hyn.

**Profiadau’r busnesau o addasu i newidiadau RhT**

3.21 Tueddai'r busnesau a gyfwelwyd a oedd â gwybodaeth dda o RhT i adrodd profiad cadarnhaol o weithio drwy'r prosesau cysylltiedig. Yn eu cyfweliad, disgrifiodd un busnes sut y gwnaethant ddechrau cynllunio ar gyfer ymadael â’r UE ddwy flynedd cyn i’r DU adael yr UE, a gorfodi TCA wedi hynny. O ganlyniad, roeddent yn ymwybodol o'r effaith a gafodd y newidiadau RhT ar eu datganiadau (gwledydd tarddiad ar gyfer cydrannau eu nwyddau). Er bod y busnes yn defnyddio asiantau allforio allanol i gyfrifo eu tollau a chostau eraill (fel pris cludiant), fe wnaethant

adrodd eu bod yn bennaf yn seilio penderfyniadau a gweithredu ar eu hymchwil annibynnol eu hunain (e.e. gwefannau'r llywodraeth a chyrff masnach).

3.22 Roedd y busnesau eraill a gyfwelwyd a oedd yn rhoi RhT ar gontract allanol i asiantau yn ystyried yn fras fod y prosesau'n gymhleth. Disgrifiodd un busnes y ffurflenni fel rhai anodd eu llenwi ac i wybod ble i fewnbynnu gwahanol ddarnau o wybodaeth. Dywedodd busnes arall fod y prosesau gweinyddol yn gymhleth o ran y cyfrifiadau ac nad oedd unrhyw fanteision iddynt.

> "Mae'n gymhleth ac yn cymryd cryn dipyn o amser heb unrhyw werth ychwanegol." Gwneuthurwr nwyddau trydanol.

3.23 Roedd y busnesau a ddefnyddiodd asiantau allforio i reoli eu prosesau RhT ar eu rhan yn teimlo bod asiantau allforio a chwmnïau cludo yn wybodus ac yn barod i helpu. Cwblhaodd yr asiantau allforio yr holl dasgau gweinyddol ar ran y busnes, gan olygu mai dim ond talu oedd rhaid i'r busnes ei wneud. Roedd hyn yn golygu nad oedd eu diffyg dealltwriaeth yn dylanwadu'n negyddol ar eu profiad o RhT.

> "Dydw i ddim yn meddwl ei fod wedi bod yn rhy ddrwg. Rydyn ni wedi bod yn allforio ers… [ychydig o ddegawdau] heb unrhyw broblemau ac yn cael arweiniad da gan ein cludwyr" Cwmni technoleg

3.24 Yn gyffredinol, adroddodd busnesau nad oedd angen iddynt wneud newidiadau mawr, nac unrhyw newidiadau i'w harferion allforio neu fewnforio, o ganlyniad i newidiadau i RhT. I rai, roedd hyn oherwydd eu bod eisoes wedi gwneud newidiadau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE, gan olygu nad oedd y newidiadau i RhT wedi effeithio ar eu model busnes. I eraill, roeddent wedi dod ar draws rhai costau uwch o ganlyniad, ond nid oedd maint y newidiadau hyn yn amlwg eto neu roeddent yn eu priodoli i ffactorau eraill (yn enwedig materion newid cyflenwadau). Efallai y byddai angen iddynt wneud newidiadau i liniaru'r rhain yn y dyfodol ond roedd y busnesau hyn yn aros i weld yn llawnach beth oedd yr effeithiau ariannol cyn gwneud newidiadau.

**Profiadau'r busnesau o gymorth**

3.25 Dim ond lleiafrif o fusnesau a gyfwelwyd a ddywedodd eu bod wedi chwilio am gymorth. Roedd y mwyafrif naill ai'n teimlo'n hunangynhaliol, yn darllen gwefannau'r

llywodraeth ac erthyglau academaidd eu hunain, neu’n ymddiried yn eu hasiantau.[20] Roedd busnesau'n tueddu i beidio â chwilio am RhT yn benodol ond yn aml roeddent yn ceisio cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl bolisïau a allai fod yn berthnasol.

3.26 Disgrifiwyd e-byst yr Adran Masnach Ryngwladol, hyfforddiant gan y Siambr Fasnach a Chyllid a Thollau EM fel ffynonellau gwybodaeth defnyddiol. Yn y cyfamser disgrifiwyd asiantau, cludwyr neu ddosbarthwyr fel ffynonellau cymorth.

3.27 Nid oedd unrhyw awydd sylweddol am ragor o gymorth ac nid arweiniodd ymchwil pellach yn y cyfweliad at unrhyw oleuni pellach ar y mater. Dywedodd busnesau eu bod wedi cael y lefel o gymorth yr oedd ei angen arnynt.

> “Fel y mae pethau, nid ydym angen unrhyw help. Efallai pe bai codau nwyddau newydd yn dod i mewn ... ond mae popeth yn iawn ar hyn o bryd.” Gwneuthurwr nwyddau trydanol

[20] Gofynnwyd i fusnesau “A yw eich busnes wedi ceisio unrhyw arweiniad neu gymorth i’ch helpu i lywio drwy Reolau Tarddiad?” ”Pa mor ddefnyddiol oedd y ffynhonnell wybodaeth hon” a “Beth ellid fod wedi'i wneud i'ch cefnogi'n well?”

# 4. Casgliadau

4.1 Yn archwiliadol ei natur, nod yr ymchwil hwn oedd archwilio ymwybyddiaeth busnesau o RhT, yn enwedig yng nghyd-destun allforio i'r UE. Nid yw natur ansoddol graddfa-fach y cynllun ymchwil yn caniatáu i'r awduron wneud sylwadau cyffredinol ar ymwybyddiaeth a gwybodaeth busnesau Cymreig o RhT. Roedd y nifer cyfyngedig o gyfweliadau yn golygu nad oedd yn bosibl cynnal dadansoddiad fesul sector, maint nac unrhyw is-grŵp arall. Dylid ystyried canfyddiadau fel rhai dangosol.

4.2 Bu'r AMC yn arf defnyddiol ar gyfer nodi a recriwtio busnesau sy'n fodlon cymryd rhan yn ymchwil Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn yr ymchwil, megis asiantau a chyrff masnach, yn ddefnyddiol i feithrin dealltwriaeth ehangach o'r dirwedd sy'n ymwneud â newidiadau RhT. Nodwyd hefyd fod ymgysylltu â chyrff masnach wrth recriwtio cyfranogwyr ymchwil yn ddull posibl ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

**Roedd ymwybyddiaeth gyffredinol o RhT ymhlith y busnesau a gyfwelwyd yn dda, ond cymysg oedd dealltwriaeth o dermau penodol a chyfnod yr hawddfraint.**

4.3 Er bod pob busnes a gyfwelwyd yn deall RhT yn gyffredinol, roedd gwybodaeth fanwl yn amrywio rhwng busnesau. I'r busnesau hynny a gyfwelwyd, esboniwyd gwybodaeth, mewn rhai achosion, yn ôl faint o adnoddau oedd ar gael iddynt i'w neilltuo i ddeall a rheoli RhT a datblygiadau eraill (e.e. yn gysylltiedig ag Ymadael â'r UE, FTAs a newidiadau CThEF ehangach). Roedd busnesau a oedd yn rhoi rheolaeth RhT ar gontract allanol i asiant allforio hefyd yn tueddu i fod â llai o wybodaeth a dealltwriaeth o RhT na'r rhai a oedd yn eu rheoli'n fewnol.

4.4 Roedd pob busnes a gyfwelwyd yn ymwybodol o ofynion tystysgrifau tarddiad a chodau nwyddau - ni nododd busnesau unrhyw anawsterau nac ansicrwydd cyfatebol pan y'u holwyd. Roedd dealltwriaeth gyffredinol dda o beth oedd trefniadau cronni ymhlith y busnesau a gyfwelwyd, ond roedd dealltwriaeth fanwl o'r trefniadau hyn yn llai cyffredin. Roedd ymwybyddiaeth gymysg ymhlith cyfweleion o gyfnod hawddfraint RhT ac nid oedd y busnesau a gyfwelwyd yn gyfarwydd â

chosbau CThEF am fethu cydymffurfio ac anghywirdebau. Ni wnaeth unrhyw fusnes nodi ei fod yn defnyddio rheolau penodol i gynnyrch.

**Nid adnabuwyd unrhyw anawsterau penodol yn y broses o fusnesau yn addasu a llywio drwy'r RhT.**

4.5 Datgelodd y broses recriwtio a ddefnyddiwyd i nodi busnesau ar gyfer y sampl fod nifer fach o fusnesau nad oeddent yn defnyddio RhT wedi eu rhwystro rhag gwneud hynny oherwydd diffyg gwybodaeth. Roedd llai fyth yn cael eu rhwystro gan gostau a phrosesau cysylltiedig.

4.6 Yn gyffredinol, adroddodd busnesau o fewn y sampl a oedd yn defnyddio RhT nad oedd angen iddynt wneud newidiadau mawr, nac unrhyw newidiadau i'w harferion allforio neu fewnforio o ganlyniad. Roedd hyn naill ai oherwydd eu bod wedi treulio amser yn paratoi ar gyfer y newidiadau, neu oherwydd nad effeithiwyd ar eu model busnes. Nododd rhai busnesau y gallai costau uwch ddeillio o'r newidiadau ond ar adeg yr ymchwil, nid oeddent yn hyderus ynghylch beth fyddai'r effaith lawn.

4.7 Ni nododd y busnesau a gyfwelwyd unrhyw anawsterau penodol wrth lywio drwy'r RhT. Fodd bynnag, roedd gan y busnesau hynny a oedd yn dibynnu ar asiantau ddealltwriaeth gyfyngedig o RhT ar y cyfan ac yn yr un modd, roeddent yn meddwl bod y prosesau'n gymhleth, yn anodd eu cyfrifo ac yn anodd mewnbynnu gwybodaeth. Nid oedd y busnesau hyn yn ymwneud â gweinyddiaeth RhT eu hunain, ac yn lle hynny roeddent yn dibynnu ar gyngor arbenigwyr cyflogedig.

4.8 Ni allai busnesau nodi unrhyw newidiadau cadarnhaol posibl yn ymwneud â RhT hyd yn oed pan ofynnwyd iddynt. Gallai hyn fod oherwydd nad oedd RhT yn ofyniad wrth fasnachu â'r UE, a nawr maent yn ofyniad gweinyddol ychwanegol.

4.9 Byddai ymchwil pellach i ddeall heriau sy'n ymwneud â RhT yn elwa o ymgynghori â busnesau nad ydynt yn defnyddio RhT ar hyn o bryd yn ogystal ag asiantau allforio a/neu cludwyr oherwydd mai nhw yn aml yw'r unigolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrosesau RhT (ar ran busnesau).

**Ni nodwyd unrhyw fylchau mewn arweiniad na chymorth (yn ymwneud â RhT).**

4.10 Ni ddywedodd y busnesau a gyfwelwyd eu bod wedi ceisio na chael mynediad at lawer o arweiniad na chymorth RhT. Teimlai busnesau eu bod yn gallu cael gafael ar yr holl gymorth yr oedd ei angen arnynt ond, mewn rhai achosion, roedd hyn oherwydd eu bod yn cyflogi asiantau allforio i reoli RhT ar eu rhan.

4.11 Gallai darparu enghreifftiau neu astudiaethau achos helpu busnesau i ddeall sut y gall graddoliad RhT fod yn berthnasol iddynt. Byddai siarad ag asiantau allforio hefyd yn helpu i ddeall y cymorth y mae nhw eu hunain ei angen, a sut y gallant gefnogi busnesau yn well.

## Atodiad A – Sgriniwr Rheolau Tarddiad

Sgriniwr

S1 Bore da/ prynhawn da. Fy enw yw [ENW] ac rwyf yn galw o IFF Research ar ran Llywodraeth Cymru

**Os gwelwch yn dda, gâi siarad â [ENW O'R SAMPL]?**

OS OES ANGEN: Rydym yn galw am astudiaeth sy'n adeiladu ar ymchwil o Arolwg Masnach Cymru a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru lle rydym yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o lif masnach i mewn ac allan o fusnesau yng Nghymru. Ar ôl cymryd rhan yn yr ymchwil hwnnw, deallaf eich bod wedi cytuno i ni gysylltu â chi i'n helpu gyda'r ymchwil ychwanegol hwn.

| | | |
|---|---|---|
| Parhau | 1 | PARHAU |
| Gwrthod | 2 | DIOLCH A CHAU'R ALWAD |

OS CEWCH EICH TROSGLWYDDO

S2 Bore da/ prynhawn da. Fy enw yw [ENW] ac rwyf yn galw o IFF Research, cwmni ymchwil annibynnol. Rydym yn cynnal rhywfaint o ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru

Deallaf eich bod eisoes wedi cymryd rhan yn Arolwg Masnach Cymru ac wedi cytuno i gael ail-gysylltiad i'n helpu gyda pheth ymchwil ychwanegol. Yn gyntaf, diolch am gymryd rhan a helpu hyd yn hyn.

Gan adeiladu ar yr ymchwil hwnnnw, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynnal rhagor o ymchwil i ddysgu mwy am Reolau Tarddiad ac effeithiau hyn ar fusnesau. Deallaf eich bod wedi dweud yn yr arolwg blaenorol eich bod yn defnyddio tariffau ffafraethol a rheolau tarddiad ffafraethol wrth allforio y tu allan i'r DU. Ydy hyn yn gywir?

| | | |
|---|---|---|
| Ydy | 1 | PARHAU |
| Nac ydy | 2 | DIOLCH A CHAU'R ALWAD |

GOFYN I BAWB

S3 Byddem yn gwerthfawrogi'n fawr iawn cael adborth gan fusnesau fel eich un chi i ddeall effaith Rheolau Tarddiad ac adeiladu sylfaen dystiolaeth i gynnig mwy o gymorth wrth symud ymlaen.

Byddai'r ymchwil yn cynnwys cymryd rhan mewn cyfweliad 30 munud trwy alwad fideo neu ffôn yn dibynnu ar eich dewis. Fel diolch am gymryd rhan, byddwn yn gwneud cyfraniad o £50 ar eich rhan i Apêl Wcráin DEC.

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, yn unol â Chod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil Marchnad. Ni fydd eich ymatebion yn cael eu cysylltu'n ôl â chi. Bydd eich ymatebion yn llywio ein hadroddiad gwybyddol a sut rydym yn newid yr holiadur.

Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, a ydych yn fodlon cymryd rhan?

| | | |
|---|---|---|
| Parhau | 1 | PARHAU GYDA'R AROLWG |
| Cael eich cyfeirio at rywun arall yn y sefydliad<br><br>ENW______________________________<br><br>TEITL SWYDD__________________________ | 2 | TROSGLWYDDO A CHYFLWYNO EICH HUN ETO |
| Apwyntiad caled | 3 | GWNEUD APWYNTIAD |
| Apwyntiad meddal | 4 | |
| Gwrthod | 5 | DIOLCH A CHAU'R ALWAD |
| Gwrthod – polisi cwmni | 6 | |
| Gwrthod – wedi cymryd rhan mewn arolwg diweddar | 7 | |
| Ddim ar gael o fewn yr amserlen | 8 | |

S4 Gwych. Diolch yn fawr. Byddwn yn cynnal cyfweliadau trwy Zoom neu dros y ffôn rhwng dydd Iau 24 Mawrth a dydd Gwener 8 Ebrill 2022. Pryd fyddai'n amser da i un o'n cyfwelwyr eich ffonio o fewn yr amserlen hon?

RECRIWTIWR: GWIRIWCH ARGAELEDD CYFWELYDD CYN BWRW YMLAEN

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**<br>(Dydd Mercher 23 Chwefror a dydd Mawrth 1 Mawrth 2022) | |

| | |
|---|---|
| **Amser**<br>(Nodwch mewn 24 awr – yn ystod amser busnes 8:30 – 18:00) | |
| **Modd** | **Zoom / Teams / Ffôn** [OS FFÔN, GWIRIWCH AI HWN YW'R RHIF GORAU] |

GOFYN I BAWB

S5 Diolch. Rhag ofn na fydd ein cyfwelwyr yn gallu gwneud y dyddiad hwnnw, a oes unrhyw ddyddiadau eraill a fyddai'n gyfleus?

| | | |
|---|---|---|
| YSGRIFENNWCH DDYDDIADAU ADDAS ERAILL. IAWN NODI ARGAELEDD MWY CYFFREDINOL (E.E. BOREAU DYDD IAU) | | |
| DIM AMSER CYFLEUS ARALL | 1 | PARHAU |

GOFYN I BAWB

S6 Diolch yn fawr iawn. I gadarnhau, bydd un o ymchwilwyr IFF Research yn cynnal galwad gyda chi ar [DYDDIAD] am [AMSER].

A fyddech cystal â rhoi eich cyfeiriad e-bost i mi fel y gallaf anfon y manylion hyn atoch?

YCHWANEGU OS OES ANGEN: Dim ond i anfon manylion eich apwyntiad y byddwn yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost. Ni fydd yn cael ei defnyddio at unrhyw ddibenion eraill nac yn cael ei rannu ag unrhyw drydydd parti.

| | | |
|---|---|---|
| YSGRIFENNU I MEWN | | |
| GWRTHOD | 1 | PARHAU |

GOFYN I BAWB

| |
|---|
| DIOLCHWCH I'R YMATEBYDD A CHAU'R CYFWELIAD |

| |
|---|
| Yn olaf, hoffwn gadarnhau bod yr arolwg hwn wedi'i gynnal o dan gyfarwyddiadau IFF ac o fewn rheolau Cod Ymddygiad MRS. Diolch yn fawr iawn am eich help heddiw. |

SICRWYDD I'W DDEFNYDDIO OS OES ANGEN

Bydd y cyfweliad yn cymryd tua 30 munud i'w gwblhau.

Sylwch y bydd yr holl ddata yn cael ei adrodd ar ffurf gyfanredol ac ni fydd eich atebion yn cael eu hadrodd i'n cleient mewn unrhyw ffordd a fyddai'n caniatáu i chi gael eich adnabod.

Os yw'r ymatebwr yn dymuno cadarnhau dilysrwydd yr arolwg neu gael rhagor o wybodaeth am nodau ac amcanion, gallant ffonio:
**[MRS: Manylion cyswllt y Gymdeithas Ymchwil Marchnad ]**
**[Manylion cyswllt IFF]**

## Atodiad B – Canllawiau Pwnc Rheolau Tarddiad – Busnesau

NODYN I'R CYFWELYDD: Gofynnwch bob cwestiwn oni nodir yn wahanol.

Cefndir (2-3 munud)

| | |
|---|---|
| • **Cyflwyno'r cyfwelydd ac IFF** – diolch am gytuno i gymryd rhan<br>• **Cefndir yr ymchwil**: Rydym yn cynnal ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru i ymchwilio i sut mae busnesau'n deall, ac yn gallu defnyddio, Modd 5; ac i archwilio sut mae Modd 5 yn effeithio ar fusnesau.<br>• **Cod Ymddygiad a Chyfrinachedd MRS**: Mae IFF Research yn gwmni ymchwil marchnad annibynnol, sy'n gweithredu o dan ganllawiau llym Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil Marchnad. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw beth a ddywedwch wrthym yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol, ac ni fydd unrhyw un o'ch atebion yn cael eu priodoli i chi oni bai eich bod yn rhoi caniatâd penodol i ni wneud hynny.<br>• **Mae cymryd rhan yn wirfoddol** – nid oes atebion cywir nac anghywir<br>• **Defnyddio data**: Bydd yr atebion a roddwch yn cael eu dadansoddi gan dîm ymchwil IFF a'u defnyddio i ddeall yn well sut mae Modd 5 yn bodoli ar hyn o bryd ac i ba raddau y mae Modd 5 yn effeithio ar fusnesau.<br>• **Caniatâd i recordio**: Rydym yn hoffi recordio pob cyfweliad o'r natur hwn felly nid oes rhaid i ni wneud llawer o nodiadau a hefyd bydd yn cofnodi ein trafodaeth yn gywir – dim ond at ddibenion dadansoddi y defnyddir y recordiad. Bydd y recordiadau'n cael eu storio'n ddiogel mewn ffolderi, a dim ond tîm ymchwil IFF fydd yn cael mynediad iddynt. Bydd pob recordiad yn cael ei ddileu ar ddiwedd yr ymchwil.<br>*Gofynnwch a yw'r cyfranogwr yn hapus i gymryd rhan ac am ganiatâd i ddechrau recordio*.<br><br>*Cyfwelydd i ddarllen y datganiad caniatâd uchod i gael caniatâd llafar.*<br><br>*Dechrau recordio os yw cyfranogwr yn cytuno i gael ei recordio a chadarnhau caniatâd llafar.*<br><br>**Bydd y cyfweliad yn para tua 30 munud.** | ***Nodiadau proses***<br>*Pwrpas yr adran hon yw egluro beth fydd yn cael ei gynnwys yn ystod y drafodaeth, egluro sut y bydd eu hatebion yn cael eu defnyddio, rhoi sicrwydd ynghylch anhysbysrwydd a gofyn am ganiatâd i recordio* |

Manylion busnes (5 munud)

| | |
|---|---|
| Yn yr adran gyntaf hon hoffwn ddeall ychydig mwy am eich busnes.<br><br>**A1. A allwch chi roi trosolwg byr i mi o'ch busnes, o ran:**<br>• Beth mae eich busnes yn ei wneud yn bennaf<br>• Cymryd rhan mewn allforio / mewnforio nwyddau a gwasanaethau<br>• Beth ydych chi'n ei gynhyrchu / gweithgynhyrchu<br><br>**A2. Mewn ychydig eiriau, a allwch chi ddweud wrthyf am eich rôl? Beth yw eich prif gyfrifoldebau?** | ***Nodiadau proses:*** *Pwrpas yr adran hon yw casglu gwybodaeth allweddol am y darparwr i'n galluogi i broffilio darparwyr sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil a rhoi cyfle i gyfranogwyr 'gynhesu' cyn i ni gyrraedd y drafodaeth.* |

Ymwybyddiaeth o Reolau Tarddiad a pholisi masnach amgylchynol (15 munud)

| | |
|---|---|
| **B1. A fyddech cystal â rhoi trosolwg i mi o'r hyn rydych chi'n ei ddeall yw Rheolau Tarddiad?** *Os oes angen (ar gyfer ymatebydd neu gyfwelydd), rhowch ddiffiniad: Defnyddir Rheolau Tarddiad i bennu cenedligrwydd economaidd nwydd ac maent yn gydrannau allweddol o Gytundebau Masnach Rydd (FTAs) a lofnodir rhwng gwledydd. Dim ond os gall allforwyr brofi eu bod wedi bodloni'r rheolau tarddiad perthnasol y cytunwyd arnynt mewn FTAs y gellir hawlio cyfraddau tariff is, h.y. ffafraethol.*<br><br>**B2. I ba raddau y byddech chi'n ystyried bod eich busnes yn gyfarwydd â'r Rheolau Tarddiad?**<br>• Pam ydych chi'n dweud hyn?<br>• Pa ddulliau ydych chi'n eu defnyddio i gynnal ymwybyddiaeth?<br><br>Hoffwn ofyn cwpl o gwestiynau i chi am newidiadau diweddar i bolisi masnach / allforio.<br><br>**B3. Ar 1 Ionawr 2022, daeth y cyfnod gras y cytunwyd arno yn y TCA ar ddarparu prawf o darddiad nwyddau wrth allforio i'r UE i ben. Yn hytrach na chael 175 diwrnod i ddarparu'r prawf gofynnol, rhaid i fusnesau bellach ddarparu datganiadau cyflenwyr a rheolau tarddiad (lle bo angen) ar adeg allforio. Oeddech chi'n ymwybodol o'r newid hwn?** | ***Nodiadau proses:*** *Pwrpas yr adran hon yw deall mwy am ymwybyddiaeth busnesau o'r Rheolau Tarddiad, a'r iaith y maent yn ei defnyddio o'u cwmpas* |

| | |
|---|---|
| OS FELLY:<br>• Ar ba bwynt y clywsoch chi am y newid hwn/ y daethoch yn ymwybodol ohono? Oedd hyn cyn neu ar ôl yr hawddfraint?<br>• Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newid hwn? HOLWCH: o ffynonellau'r llywodraeth? Asiant tollau?<br>• Ydych chi'n meddwl bod busnesau eraill (tebyg?) yn gyffredinol ymwybodol o'r newid hwn?<br><br>**B4.** Pa effaith, os o gwbl, a gafodd y newid hwn ar eich busnes?<br>• Beth oedd y newidiadau hyn?<br><br>**B5. Ydych chi'n gyfarwydd â datganiad/tystysgrif tarddiad – a'r cosbau posibl am beidio â chydymffurfio?** DARLLENWCH AR GOEDD: Rhaid i fusnesau fod yn ymwybodol bod y rhain yn wahanol i wahanol farchnadoedd (gwledydd). Mae angen i fusnesau gydymffurfio, ac os na wnant, byddant yn wynebu cosbau (ac nid dim ond un gosb, ond cosbau ôl-weithredol ar yr holl allforion unigol)<br><br>**B6. A newidiodd eich busnes ei bolisi allforio ers 1 Ionawr 2021?**<br><br>OS FELLY: ym mha ffyrdd?<br>• Pam y cafwyd y newid hwn? (cymhellion mewnol/ allanol?)<br><br>**B7. Os ydych yn defnyddio Tariffau Ffafraethol a Rheolau Tarddiad i fasnachu, sut ydych chi'n gweinyddu/cipio'r rheolau ac yn cadw cofnodion?**<br>DARLLENWCH AR GOEDD: A ydych yn gwybod bod angen i chi gadw cofnodion archwiliadwy yn eu lle (hyd at 5 mlynedd mewn rhai achosion) rhag ofn i'r awdurdodau tollau ofyn i chi amdanynt?<br><br>**B8. A ydych chi'n gyfarwydd â chodau nwyddau a pha godau nwyddau ydych chi'n eu defnyddio o dan reolau tarddiad ar gyfer eich cynhyrchion?**<br>**B9. A ydych chi wedi clywed am y term 'trefniadau cronni'? Beth ydych chi'n feddwl mae'r term hwn yn ei olygu?** *Os oes angen / nad ydynt wedi clywed amdanynt/ angen ychydig mwy o wybodaeth: Mae croniad yn ddarpariaeth sy'n caniatáu i ddeunyddiau, cydrannau a mewnbynnau prosesu o wlad wahanol nad yw'n rhan o FTA, gael eu cronni a'u diffinio fel rhai sy'n tarddu o'r wlad sy'n allforio (y DU, dyweder) ar gyfer y prosesau o gyrchu tariffau ffafraethol a bodloni rheolau tarddiad dan delerau FTA.*<br>Oeddech chi'n ymwybodol o'r trefniadau cronni gwahanol a/neu'r PSRs (Rheolau Cynnyrch Penodol)?<br>• Os ydych yn defnyddio PSRs, pa PSR y mae eich busnes yn ei ddefnyddio? | |

| | |
|---|---|
| **B10. A yw eich busnes yn allforio i Weriniaeth Iwerddon neu i Ogledd Iwerddon ar hyn o bryd?**<br>• A yw'r tariffau ar fynediad wrth allforio i Weriniaeth Iwerddon neu Ogledd Iwerddon wedi cael unrhyw effaith ar eich busnes? A yw wedi effeithio ar faint rydych yn ei allforio?<br><br>**B11. A yw eich busnes yn allforiwr anuniongyrchol?** *Os oes angen: Mae allforiwr anuniongyrchol yn cyfeirio at fusnes sy'n rhan o gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch sy'n cael ei allforio, yn hytrach na'r allforiwr terfynol.*<br>• OS FELLY: Ydych chi wedi clywed am y 'datganiad cyflenwyr'? Beth ydych chi'n feddwl y mae hyn yn ei olygu? A yw hyn yn rhywbeth y mae eich busnes yn delio ag ef yn uniongyrchol?<br>• *Os oes angen / nad ydynt wedi clywed amdano/ angen ychydig mwy o wybodaeth:* Datganiad y mae cyflenwr yn ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth i'w gwsmer ynghylch statws tarddiad nwyddau mewn perthynas â rheolau tarddiad ffafraethol penodol. | |

Profiad ac effaith y Rheolau Tarddiad (5 munud)

| | |
|---|---|
| **C1. Sut fyddech chi'n disgrifio'ch profiad o lywio drwy'r Rheolau Tarddiad?**<br>• Ydych chi wedi cael unrhyw anawsterau wrth fynd drwy'r broses Rheolau Tarddiad?<br>• Ydych chi wedi talu unrhyw dollau annisgwyl? OS FELLY: Wnaeth hyn effeithio ar/ atal eich gweithgaredd allforio?<br>• Ydych chi erioed wedi cael eich gwrthod o safbwynt talu tariffau ffafraethol, ar ôl gwneud cais amdanynt? OS FELLY: Ydych chi'n gwybod pam? Beth wnaethoch chi mewn ymateb? A wnaeth hyn effeithio ar/ atal eich gweithgaredd allforio?<br>• Pa effaith y mae hyn wedi'i chael ar eich busnes?<br>• A yw eich busnes wedi rhoi'r gorau i allforio / mewnforio i'r UE o ganlyniad i'r Rheolau Tarddiad? Pryd ddigwyddodd hyn a pham?<br>• Beth mae eich busnes wedi'i wneud, os o gwbl, i fynd i'r afael â'r anhawster hwn? (*Gofynnwch am bob anhawster a grybwyllir)* | ***Nodiadau proses:*** *Pwrpas yr adran hon yw deall mwy am nodweddion allweddol Rheolau Tarddiad a'u heffeithiau ar fusnes* |

Gwybodaeth a Chymorth gyda Rheolau Tarddiad (5 munud)

| | |
|---|---|
| **D1. A yw eich busnes wedi ceisio unrhyw arweiniad neu gymorth i'ch helpu i lywio drwy'r Rheolau Tarddiad?**<br>• OS FELLY: Pa gymorth oeddech chi'n chwilio amdano (h.y., pa ran benodol o'r broses oedden nhw'n cael trafferth ag ef?)<br>• Oeddech chi'n gallu dod o hyd i'r cymorth roeddech chi'n chwilio amdano?<br>• Ble? Pa ffynonellau?<br>• HOLWCH: a wnaethoch chi ddefnyddio cymorth Llywodraeth?<br>• HOLWCH: a wnaethoch chi ddefnyddio asiant tollau?<br><br>**D2. Pa mor ddefnyddiol oedd y ffynhonnell wybodaeth hon (ceisiwch ofyn am bob un a grybwyllwyd)?**<br>Pam ydych chi'n dweud hyn?<br><br>**D3. Beth ellid bod wedi ei wneud i roi gwell cymorth i chi?** | ***Nodiadau proses:*** *Pwrpas yr adran hon yw cael dealltwriaeth o sut mae busnesau a gynorthwyir yn teimlo mewn perthynas â Rheolau Tarddiad, a lle y gellir gwella.* |

Diolch a chau'r alwad (3 mun)

| | |
|---|---|
| Os nad ydych wedi newid polisi allforio ers 1 Ionawr 2021:<br><br>**E1. A ydych yn disgwyl i'ch polisi allforio newid yn y tair blynedd nesaf?**<br>• Ym mha ffyrdd?<br><br>GOFYN I BAWB:<br><br>**E2. Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill am Reolau Tarddiad nad ydyn ni wedi'u trafod heddiw?**<br><br>**E3. A fyddech yn fodlon rhannu eich manylion gyda Llywodraeth Cymru fel y gallant gysylltu â chi gyda rhagor o wybodaeth a chyngor am Reolau Tarddiad?**<br><br>*Os ydych, nodwch y manylion cyswllt* | |

## Atodiad C – Canllawiau Pwnc Rheolau Tarddiad – Corff Masnach

# Canllawiau Pwnc Rheolau Tarddiad

J11855
Dyddiad
Rhif ffôn

---

Cefndir i'r cyfwelydd

**Ynglŷn â'r ymchwil**

Mae'r ymchwil hwn yn ddilyniant i Arolwg Masnach Cymru sy'n arolwg a fu'n rhedeg ers tair blynedd ac sy'n canolbwyntio ar ddeall sut mae masnach yn llifo i mewn ac allan o fusnesau yng Nghymru. Comisiynwyd yr ymchwil hwn i ddeall yn well effaith y Rheolau Tarddiad, sy'n disgrifio'r darpariaethau sydd yn eu lle i bennu 'cenedligrwydd economaidd' nwyddau.

Fel rhan o gytundeb masnach y DU â'r UE (y 'Cytundeb Masnach a Chydweithrediad' - TCA), rhoddwyd cyfnod 'gras' o flwyddyn i allforwyr rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021, lle roedd ganddynt hyd at 175 diwrnod i cwblhau a chyflwyno datganiadau tollau llawn, gan gynnwys datganiadau ynghylch rheolau tarddiad. O 1 Ionawr 2022, bydd angen datganiadau tollau, gan gynnwys rheolau datganiad tarddiad, ar adeg allforio. Mae'n rhaid i fusnesau nawr ddarparu datganiadau cyflenwyr ar darddiad y cynhyrchion a datgan eu bod yn bodloni'r rheolau tarddiad perthnasol y cytunwyd arnynt yn y TCA, os ydynt yn dymuno manteisio ar y trefniant masnachu tariff sero ffafraethol gyda'r UE. Nid oes angen i fusnesau ddefnyddio rheolau tarddiad, ond byddai hyn yn golygu na allant fasnachu o dan y trefniadau tariff sero.

Bydd angen rheolau tarddiad hefyd ar fusnesau os ydynt am fanteisio ar y trefniadau masnachu tariff sero y cytunwyd arnynt yn y cytundebau masnach gydag Awstralia a Seland Newydd, pan fyddant yn dod i rym. O'r herwydd, mae angen mesur ymwybyddiaeth ac effaith y Rheolau Tarddiad a'r mesurau polisi masnach o'u hamgylch; gyda'r nod ehangach o gefnogi busnesau'n well i lywio drwy'r broses hon.

Mae'r cleient, Llywodraeth Cymru, yn ceisio deall natur a phwysigrwydd y Rheolau Tarddiad i fasnach Cymru.

Mae pob busnes yr ydym yn bwriadu cysylltu â nhw wedi cytuno i ni ailgysylltu â nhw at ddibenion ymchwil.

NODYN I'R CYFWELYDD: Gofynnwch bob cwestiwn oni nodir yn wahanol.

A Cefndir (2-3 munud)

| | |
|---|---|
| • **Cyflwyno'r cyfwelydd ac IFF** – diolch am gytuno i gymryd rhan<br><br>**Cefndir yr ymchwil**: Rydym yn cynnal ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru i ymchwilio i sut mae busnesau'n deall, ac yn gallu defnyddio, Modd 5; ac i archwilio sut mae Modd 5 yn effeithio ar fusnesau.<br><br>**Cod Ymddygiad a Chyfrinachedd MRS**: Mae IFF Research yn gwmni ymchwil marchnad annibynnol, sy'n gweithredu o dan ganllawiau llym Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil Marchnad. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw beth a ddywedwch wrthym yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol, ac ni fydd unrhyw un o'ch atebion yn cael eu priodoli i chi oni bai eich bod yn rhoi caniatâd penodol i ni wneud hynny.<br>• **Mae cymryd rhan yn wirfoddol** – nid oes atebion cywir nac anghywir<br>• **Defnyddio data**: Bydd yr atebion a roddwch yn cael eu dadansoddi gan dîm ymchwil IFF a'u defnyddio i ddeall yn well sut mae Modd 5 yn bodoli ar hyn o bryd ac i ba raddau y mae Modd 5 yn effeithio ar fusnesau.<br>• **Caniatâd i recordio**: Rydym yn hoffi recordio pob cyfweliad o'r natur hwn felly nid oes rhaid i ni wneud llawer o nodiadau a hefyd bydd yn cofnodi ein trafodaeth yn gywir – dim ond at ddibenion dadansoddi y defnyddir y recordiad. Bydd y recordiadau'n cael eu storio'n ddiogel mewn ffolderi, a dim ond tîm ymchwil IFF fydd yn cael mynediad iddynt. Bydd pob recordiad yn cael ei ddileu ar ddiwedd yr ymchwil.<br><br>*Gofynnwch a yw'r cyfranogwr yn hapus i gymryd rhan ac am ganiatâd i ddechrau recordio*.<br><br>*Cyfwelydd i ddarllen y datganiad caniatâd uchod i gael caniatâd llafar.*<br><br>*Dechrau recordio os yw cyfranogwr yn cytuno i gael ei recordio a chadarnhau caniatâd llafar.*<br><br>**Bydd y cyfweliad yn para tua 30 munud.** | ***NODIADAU PROSES:***<br><br>*Pwrpas yr adran hon yw egluro beth fydd yn cael ei gynnwys yn ystod y drafodaeth, egluro sut y bydd eu hatebion yn cael eu defnyddio, rhoi sicrwydd ynghylch anhysbysrwydd a gofyn am ganiatâd i recordio.* |

B Manylion busnes (5 munud)

| | |
|---|---|
| **Yn yr adran gyntaf hon hoffwn ddeall ychydig mwy am fusnes eich aelodau**<br><br>B1 **A allwch chi roi trosolwg byr i mi o'ch sector o ran:**<br>• Beth mae busnesau'n ei wneud yn bennaf<br>• Cymryd rhan mewn allforio / mewnforio nwyddau a gwasanaethau<br>• Beth maen nhw'n ei gynhyrchu / gweithgynhyrchu.<br><br>B2 **Mewn ychydig o eiriau, a allwch chi ddweud wrthyf am eich rôl?**<br>• Beth yw eich prif gyfrifoldebau? | *NODIADAU PROSES: Pwrpas yr adran hon yw casglu gwybodaeth allweddol am y darparwr i'n galluogi i broffilio darparwyr sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil a rhoi cyfle i gyfranogwyr 'gynhesu' cyn i ni gyrraedd y drafodaeth.* |

C Ymwybyddiaeth o Reolau Tarddiad a pholisi masnach amgylchynol (15 munud)

| | |
|---|---|
| Hoffwn ddechrau gyda chwpl o gwestiynau am eich dealltwriaeth o'r Rheolau Tarddiad.<br><br>C1 **A fyddech cystal â rhoi trosolwg i mi o'r hyn rydych chi'n ei ddeall yw Rheolau Tarddiad?**<br><br>*Os oes angen (ar gyfer ymatebydd neu gyfwelydd), rhowch ddiffiniad: Defnyddir Rheolau Tarddiad i bennu cenedligrwydd economaidd nwydd ac maent yn gydrannau allweddol o Gytundebau Masnach Rydd (FTAs) a lofnodir rhwng gwledydd. Dim ond os gall allforwyr brofi eu bod wedi bodloni'r rheolau tarddiad perthnasol y cytunwyd arnynt mewn FTAs y gellir hawlio cyfraddau tariff is, h.y. ffafraethol.*<br><br>C2 **I ba raddau y byddech chi'n ystyried eich bod chi'ch hun a'ch aelodau yn gyfarwydd â'r Rheolau Tarddiad?**<br>• Pam ydych chi'n dweud hyn?<br>• Pa ddulliau ydych chi'n eu defnyddio i gynnal ymwybyddiaeth? | *NODIADAU PROSES: Pwrpas yr adran hon yw deall mwy am ymwybyddiaeth busnesau o'r Rheolau Tarddiad, a'r iaith y maent yn ei defnyddio o'u cwmpas* |

| | |
|---|---|
| I'd like to ask you a couple of questions about recent changes to trade / exporting policy.<br><br>**C3 Ar 1 Ionawr 2022, daeth y cyfnod gras y cytunwyd arno yn y TCA ar ddarparu prawf o darddiad nwyddau wrth allforio i'r UE i ben. Yn hytrach na chael 175 diwrnod i ddarparu'r prawf gofynnol, rhaid i fusnesau bellach ddarparu datganiadau cyflenwyr a rheolau tarddiad (lle bo angen) ar adeg allforio. Oeddech chi'n ymwybodol o'r newid hwn?**<br><br>• OS FELLY: Ar ba bwynt y clywsoch chi am y newid hwn / y daethoch yn ymwybodol ohono? Oedd hyn cyn neu ar ôl yr hawddfraint?<br>• Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newid hwn? HOLWCH: o ffynonellau'r llywodraeth? Asiant tollau?<br>• Ydych chi'n meddwl bod aelodau eraill yn gyffredinol ymwybodol o'r newid hwn?<br><br>C4 Pa effaith, os o gwbl, a gafodd y newid hwn ar eich aelodau?<br><br>• Beth oedd y newidiadau hyn?<br><br>C5 **A ydych chi'n gyfarwydd â datganiad/tystysgrif tarddiad – a'r cosbau posibl am beidio â chydymffurfio?**<br><br>DARLLENWCH AR GOEDD: Rhaid i fusnesau fod yn ymwybodol bod y rhain yn wahanol i wahanol farchnadoedd (gwledydd). Mae angen i fusnesau gydymffurfio, ac os na wnant, byddant yn wynebu cosbau (ac nid dim ond un gosb, ond cosbau ôl-weithredol ar yr holl allforion unigol) )<br><br>C6 **A yw unrhyw rai o'ch aelodau wedi newid eu polisi allforio ers 1 Ionawr 2021?**<br><br>• OS FELLY: ym mha ffyrdd?<br>• Pam y cafwyd y newid hwn? (cymhellion mewnol/ allanol?)<br>• **Os ydynt yn defnyddio Tariffau Ffafraethol a Rheolau Tarddiad i fasnachu, sut maen nhw'n gweinyddu/cipio'r rheolau ac yn cadw cofnodion**?<br><br>DARLLENWCH AR GOEDD: A ydych yn gwybod bod angen iddyn nhw gadw cofnodion archwiliadwy yn eu lle (hyd at 5 mlynedd mewn rhai achosion) rhag ofn i'r awdurdodau tollau ofyn amdanynt.<br><br>**C7 A ydych chi'n gyfarwydd â chodau nwyddau a pha godau nwyddau mae aelodau'n eu defnyddio o dan reolau tarddiad ar gyfer eu cynhyrchion?**<br><br>**C8 A ydych chi wedi clywed am y term 'trefniadau cronni'?** | |

| | |
|---|---|
| - Beth ydych chi'n feddwl mae'r term hwn yn ei olygu?<br>  - *Os oes angen / nad ydynt wedi clywed amdanynt/ angen ychydig mwy o wybodaeth*: Mae croniad yn ddarpariaeth sy'n caniatáu i ddeunyddiau, cydrannau a mewnbynnau prosesu o wlad wahanol nad yw'n rhan o FTA, gael eu cronni a'u diffinio fel rhai sy'n tarddu o'r wlad sy'n allforio (y DU, dyweder) ar gyfer y prosesau o gyrchu tariffau ffafraethol a bodloni rheolau tarddiad dan delerau FTA. Oeddech chi'n ymwybodol o'r trefniadau cronni gwahanol a/neu'r PSRs (Rheolau Cynnyrch Penodol)?<br>- A ydych chi'n gyfarwydd â, neu a ydych yn defnyddio cronni trydydd parti?<br>- Os ydych yn defnyddio PSRs, pa PSR y mae eich busnes yn ei ddefnyddio?<br><br>C9 **A oes unrhyw rai o'ch aelodau yn allforio i Weriniaeth Iwerddon neu i Ogledd Iwerddon ar hyn o bryd?**<br><br>- A yw'r tariffau ar fynediad wrth allforio i Weriniaeth Iwerddon neu Ogledd Iwerddon wedi cael unrhyw effaith ar eich aelodau? A yw wedi effeithio ar faint maent yn ei allforio?<br><br>C6 **A yw eich busnes yn allforiwr anuniongyrchol?**<br><br>*Os oes angen: Mae allforiwr anuniongyrchol yn cyfeirio at fusnes sy'n rhan o gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch sy'n cael ei allforio, yn hytrach na'r allforiwr terfynol.*<br><br>- OS FELLY: Ydych chi wedi clywed am y 'datganiad cyflenwyr'? Beth ydych chi'n feddwl y mae hyn yn ei olygu? A yw hyn yn rhywbeth y mae eich aelodau yn delio ag ef yn uniongyrchol?<br><br>*Os oes angen / nad ydynt wedi clywed amdano/ angen ychydig mwy o wybodaeth:* Datganiad y mae cyflenwr yn ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth i'w gwsmer ynghylch statws tarddiad nwyddau mewn perthynas â rheolau tarddiad ffafraethol penodol. | |

E Profiad ac effaith y Rheolau Tarddiad (5 munud)

| | |
|---|---|
| **D1 Sut fyddech chi'n disgrifio profiad eich aelodau o lywio drwy'r Rheolau Tarddiad?**<br>• Ydy nhw wedi cael unrhyw anawsterau wrth fynd drwy'r broses Rheolau Tarddiad?<br>• Ydy nhw wedi talu unrhyw dollau annisgwyl? OS FELLY: Wnaeth hyn effeithio ar/ atal eu gweithgaredd allforio?<br>• Ydy nhw erioed wedi cael eich gwrthod o safbwynt talu tariffau ffafraethol, ar ôl gwneud cais amdanynt? OS FELLY: Ydy nhw yn gwybod pam? Beth wnaetho nhw mewn ymateb? A wnaeth hyn effeithio ar/ atal eu gweithgaredd allforio?<br>• Pa effaith y mae hyn wedi'i chael ar eich aelodau?<br>• A yw eu busnes wedi rhoi'r gorau i allforio / mewnforio i'r UE o ganlyniad i'r Rheolau Tarddiad? Pryd ddigwyddodd hyn a pham?<br>• Beth mae eich aelodau wedi'i wneud, os o gwbl, i fynd i'r afael â'r anhawster hwn? (Gofynnwch am bob anhawster a grybwyllir) | *NODIADAU PROSES:*<br>*Pwrpas yr adran hon yw deall mwy am nodweddion allweddol Rheolau Tarddiad a'u heffeithiau ar fusnes* |

F Gwybodaeth a Chymorth gyda Rheolau Tarddiad (5 munud)

| | |
|---|---|
| F1 **A ydych chi neu eich aelodau wedi ceisio unrhyw arweiniad neu gymorth i'ch helpu i lywio drwy'r Rheolau Tarddiad?**<br>• OS FELLY: Pa gymorth oeddech chi'n chwilio amdano (h.y., pa ran benodol o'r broses oedden nhw'n cael trafferth ag ef?)<br>• Oeddech chi'n gallu dod o hyd i'r cymorth roeddech chi'n chwilio amdano?<br>• Ble? Pa ffynonellau?<br>• HOLWCH: a wnaethoch chi ddefnyddio cymorth Llywodraeth?<br>• HOLWCH: a wnaethoch chi ddefnyddio asiant tollau?<br>F2 **Pa mor ddefnyddiol oedd y ffynhonnell wybodaeth hon (ceisiwch ofyn am bob un a grybwyllwyd)?**<br>• Pam ydych chi'n dweud hyn?<br>F3. **Beth ellid bod wedi ei wneud i roi gwell cymorth i chi?** | *NODIADAU PROSES: Pwrpas yr adran hon yw cael dealltwriaeth o sut mae busnesau a gynorthwyir yn teimlo mewn perthynas â Rheolau Tarddiad, a lle y gellir gwella.* |

G Diolch a chau'r alwad (3 mun)

| | |
|---|---|
| **Yn olaf…**<br>Os nad yw'r aelodau wedi newid eu polisi allforio ers 1 Ionawr 2021:<br>G1 **: A ydych yn disgwyl i bolisi allforio eich aelodau newid yn y tair blynedd nesaf?**<br>• Ym mha ffyrdd?<br>GOFYN I BAWB:<br>G2 **Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill am Reolau Tarddiad nad ydyn ni wedi'u trafod heddiw?** | *NODIADAU PROSES:* |

| | |
|---|---|
| G3 **A fyddech yn fodlon rhannu eich manylion gyda Llywodraeth Cymru fel y gallant gysylltu â chi gyda rhagor o wybodaeth a chyngor am Reolau Tarddiad?**<br><br>Os felly, nodwch y manylion cyswllt | |

DIOLCHWCH I'R YMATEBYDD A CHAU'R CYFWELIAD

| | | |
|---|---|---|
| Rwy'n datgan bod y cyfweliad hwn wedi'i gynnal o dan gyfarwyddiadau IFF ac o fewn rheolau Cod Ymddygiad MRS. | | |
| Llofnod y cyfwelydd: | Dyddiad: | |
| Amser gorffen: | Hyd y cyfweliad | Munud |